**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:KS/PO/58/2026

Andrew RT Davies, MS

Gadeirydd Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig

29 Ionawr 2026

Annwyl Andrew

Diolch am eich llythyr ynglŷn â chau Terfynfa 5 ym Mhorthladd Caergybi wedi digwyddiad angori ddydd Gwener 5 Rhagfyr.

Rwyf yn rhannu eich pryder am y digwyddiad pellach hwn ym Mhorthladd Caergybi ac yn cydnabod, ers y llythyr hynny, fod digwyddiad arall wedi digwydd yn gynnar ym mis Ionawr 2026. Rwyf wedi siarad â gweithredwr y porthladd am y ddau ddigwyddiad.

Ni chafodd cau terfynfa 5 effaith ar fordeithiau a chynhaliodd y porthladd amserlen hwylio lawn ar ôl hynny. Yn y pen draw, materion i'r porthladd fel endid masnachol yw capasiti teithwyr a nwyddau, llwytho cargo, masnach a gweithgarwch economaidd . Fodd bynnag, mae swyddogion y porthladd wedi cadarnhau nad chafodd y meysydd hyn eu heffeithio gan y digwyddiadau angori.

Ers mis Rhagfyr 2024 ac yn dilyn eich gwaith chi a gwaith Tasglu Môr Iwerddon Llywodraeth Cymru, mae gwelliant wedi bod yn yr ymateb gan borthladdoedd pan fod angen eu cau. Mae ymrwymiad bellach ar unrhyw borthladd yng Nghymru sy'n ymdrin â digwyddiad i roi gwybod i lywodraethau a grŵp aelodaeth y tasglu craidd cyn gynted â phosibl a pharhau i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf mewn modd amserol nes bod gweithgareddau arferol yn ailddechrau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi diolch i bawb am roi'r elfennau allweddol hynny a drafodwyd gennym a'u cytuno yn ein tasglu Môr Iwerddon ar waith fel rhai hanfodol pan fydd digwyddiad fel hwn yn digwydd.

Fel endid masnachol, rhaid i unrhyw gamau gweithredu ar atal digwyddiadau pellach ddod gan yr Awdurdod Porthladd ei hun ac maent wedi adolygu'r holl weithdrefnau morol a digwyddiadau angori hanesyddol sydd wedi digwydd. Mae hyn yn cynnwys chwilio am unrhyw dueddiadau neu broblemau cyffredin. Maent wedi lleihau eu paramedrau angori ac mae canllawiau ar angori a defnyddio ffenders wedi'u darparu i bob cwmni a meistr. Rydym yn parhau i gadw mewn cysylltiad agos iawn â Stena Line.

Ar 14 Ionawr cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar Dasglu Môr Iwerddon a'i argymhellion [Gweinidogion yn croesawu cysylltiadau cryfach wrth gyhoeddi argymhellion Tasglu Môr Iwerddon | LLYW. CYMRU]

Yn gywir



**Ken Skates AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales